Cofnodion draft Cyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu yn Neuadd Bentref Llanbedr nos Iau Tachwedd 7fed am 7.30.

Yn Bresennol

Jane Taylor Williams, Eirwyn Thomas, Robin Ward, John Evans, Helen Johns, Annwen Hughes, Gwynfor Owen, Nia Jones, Kevin Titley.

Ymddiheuriadau

Luise Vassey

Datgan Buddiant

Annwen Hughes, Kevin Titley Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanbedr – cais am arian

Annwen Hughes – Eisteddfod Ardudwy – cais am arian

Gair gan y Cadeirydd – Croeso I'r cyfarfod gan y Cadeirydd Jane Taylor Williams , ac yn diolch I Eirwyn Thomas am gadeirio y cyfarfod mis Hydref.

Derbyn Cofnodion y cyfarfod diwethaf – a'u cael yn gywir.

**Adroddiad Cyllid**

Cafwyd adroddiad manwl iawn parthed y cyllid, a ceisio deall ble I dorri yn ol o'r gyllideb er mwyn gallu ariannu prosiectau eraill.

Rhai o'r ceisiadau am arian nad oes cyllid wedi ei neilltuo ar e u cyfer.

Ysgol Gynradd Llanbedr – angen £1200 – gallu rhyddhau arian Llwybrau?

Wal Ysgol - angen £2500 – pwysig gwneud hyn – rhyddhau arian cctv? (£2400) A oes modd cael grant tuag at hyn?

Pasiwyd I wneud ymholiadau parthed CCTV – a oes modd cael grantiau, codi yn y cyfarfod cynghorau Ardudwy,. Mae yn fater o ddiogelwch efo trafnidiaeth. Werth holi Llinos Angharad parthed hyn? Gwyngor Owen am holi Gerwyn Jones parthed hyn hefyd.

Rhoi arwyddion sydd gan Kevin I fyny ger y toiledau.

Elgan Pugh – gwrych y fynwent – angen £500 - rhyddhau arian cyrsiau a cyfieuthu

Deffiwbilator – cas £500 – dim angen hwn gan bod grant wedi dod, diolch I John Evans a Cwmni Breedon Co. Chwarel Minffordd..

£500 yn y gyllideb ar gyfer rhoddion

Llwybrau - £800 heb ddefnyddio

Cyrsiau £200 heb ddefnyddio

Yn spar o goleuadau nadolig £200

Cofio bod arnom hefyd £700 am archwiliad. Hyn byth wedi ei setlo. Wedi talu £200 ym mis Rhagfyr ar gyfer un archwiliad. £300 yn y gyllideb. Felly chwilio am £400 arall

G.L.Jones cost o £2076 yn cynnwys TAW, ac wedi neilltuo £2500 am waith cynnal a chadw yr offer.

Yn y banc diwedd 29.10.24 ydoedd £25119.66

Yn y spread sheet mae yna £25219.66

£100 ad daliad Pritchard a Griffiths yw y £100 gwahaniaethol

Materion yn Codi o'r Cofnodion hynny

1. Y FYNWENT

a) Diwrnod I glirio y fynwent – gwirfoddolwyr – Mis Ionawr 2025 Hysbysu drwy Cambrian News a Llais Ardudwy 11.1.25

b) Torri y gwrych – bod pris wedi ei dderbyn gan Elgan Pugh am wneud y Gwaith yma. Pasiwyd I dderbyn hwn . Bydd yn dechrau yn y diwrnodau nesaf yma. Wedi cael caniatad gan berchnogion Ardudwy fel bod modd torri top y gwrych o'u gardd hwy pe bae angen.

2. CAE CHWARAE
   Yn amser bron I gael archwiliad eto o'r offer cae chwarae.
   Wedi derbyn 2 bris
   G.L.Jones £281 + TAW =£337.20
   Cwmni Play Inspections Co. £185 +TAW = £222
   Pasiwyd I gymerud y rhata.

3. Cabinet y Deffibulator – Nododd John Evans bod y cwmni Chwarel yn Minffordd am ariannu hwn a hefyd trefnu bod trydanwr y neu osod ar y wal. Bydd angen newid y code felly.
   Anfon llythyr o ddiolch iddynt.

4. Y cysgodfan pren gyferbun a'r Victoria. Barn cymusg parthed hwn. Pobl ddim yn licio newid. Holi maent

a) Ble fydd y map yn mynd 'rwan – yn ol ar gefn y gysgodfan

b) Beth am y fainc – lleoli yn y fynwent.

c) Cysgodfan yn unig – nid arosfan bws.
   cysgodfan – arosfa bws yw hwn – dim ond cysgodfan.

5. Angen gostwng y palmant ger y gysgodfan fel nad yw cadeiriau olwyn, pramiau yn cael eu cyfeirio yn syth I'r ffordd, angen gostwng y palmant fel bod yn arwain tuag at maes parcio y Victoria – rhag diogelwch. Hyn yr un fath gyda arosfan bws ger Hafan Artro.

6. Ffordd Newydd – dim byd llawer I adrodd ar hyn. Cadw yr opsiynnau yn agored, bydd cyfarfod mis Ionawr. Bod CG wedi derbyn £400,000 tuag at waith ymgynghoriad ac o bosib Gwaith ymarferol . Cadw at y cynllun gwreiddiol parthed cwrs y ffordd, ond yn llai o faint, arafach a hefyd pont llai dros yr afon.

Dywedodd Robin Ward y byddai'n well gwario'r arian a ddyrannwyd i Wynedd eleni ar lwybrau troed, llwybr diogel i'r ysgol a llwybr diogel i'r orsaf reilffordd yn hytrach na thalu ymgynghorwyr i wneud mwy o waith ar y cais cynllunio na fyddai'r llywodraeth yn ei gefnogi. O leiaf byddai gennym rywbeth wedi'i wneud yn gynt.

7.Cais Cynllunio – safle carafan ger llwybr rhif 7. Nododd y Clerc ei bod wedi cael sgwrs ffon gyda Caroline Evans parthed y cais cynllunio. Angen I'r Cyngor ofyn am I'r cais cael gwrandawiad llawn mewn pwyllgor cynllunio. Wedi trafod gyda rhai o'r Cyngor pasiwyd I wneud hyn. – Pwyntiau dilys – ddim yn rhwystro unrhyw fynediad I'r llwybr. Llety wrth yml ei mham oedrannus ac anabledd, eisiau bywyd eitha annibynnol ar hyn o bryd. Rhedeg y Plas fel busnes, I'w gadw allan o'r ddadl.

Gohebiaeth Cyffredinnol

1. Robin Ward – cyflwyno gwybodaeth defnyddiol iawn parthed toriadau yn y gwasanaethau lein y Cambrian. Tybio nad yw y cynlluniau hyn yn gyfreithlon. Mae wedi anfon at Mabon ap Gwynfor, a hefyd at Gwynfor Owen ein cynrychiolydd Sirol. Yn ymddangos nad oes impact assessment o equality wedi ei wneud yma. Angen hefyd anfon y linc I bawb am y ddeiseb yn erbyn tori y gwasanaethau.
2. Etholiadau Gwynedd – arolwg cymunedol – ddim allan eto.
3. Gail Jones TFW – ymchwil I'r ddamwain tren ddiweddar.
4. TFW hefyd parthed y ddamwain dren.
5. Datganiad o daliadau lwfans I'r Cynghorwyr. Clerc eisioes wedi gwneud hyn.
6. Adran gwariant 137 2025/26 wedi codi o £10.81 I £11.20 fesul etholwr yn y pentref.420 o etholwyr ym mhlwyf Llanbedr.
7. Elusen Air Ambulance – cais am arian Pasiwyd I roi £100 iddynt
8. Cwestiynnau I anfon at Pwyllgor Liaison Lein y Cambrian – angen ymateb cyn diwedd Tachwedd.
9. Cais am arian gan Steddfod Ardudwy . Pasiwyd I adael hwn am rwan. Cysidro rhoi eto.
10. Cais am arian gan Cyfeillion yr Ysgol Gynradd – wedi gorfod gwario yn helaeth ar fwrdd gwyn ac ati. Pasiwyd I roi £500

Ystyried rhoi yn flynyddol drwy'r gyllideb iddynt gan bod cadw yr Ysgol yn y Pentref yn bwysig iawn oherwydd yr iaith, cadw y Neuadd I fynd drwy y Cylch Meithrin.

ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIROL

Cyngh. Gwynfor Owen –

Trist iawn oedd nodi bod Dyfrig Jenkins wedi ymddiiswyddo yn ddiweddar o Gyngor Gwynedd. Yn ffrind da I Lanbedr ac o hyd yn gefnogol I ddatblygiadau ffordd osgoi. Neb wedi ei ddewis I'r swydd hyd yma.

Sefyllfa ariannol yn gwaethygu yn arbennig oherwydd y gyllideb gan y Llywodraeth Lafur yn ddiweddar, gyda cost mewn cynnydd ysiwriant gwladol. Ateb a gafodd Gwynfor Owen drwy e bost yn ddiweddarach ydoedd fel hyn :-

Gan Paul Rowlinson ( Aelod Cabinet dros Gyllid)

"Mae'r Trysorlys wedi addo darparu arian I ddigolledu cyrff cyhoeddus am gost cynnydd mewn ysiwriant gwladol, cynnydd fydd yn costio £5.4 miliwn y flwyddyn I'r Cyngor (CG) Bydd hyn ar ben arian canlyniadol Barnett. Ond does dim manylion hyd yn hyn. Nid ydym yn gwybod a fydd yr arian yn ddigon I dalu'r gost yn llawn nac a fydd yn mynd trwy law Llywodraeth Cymru ac yn dibynnu arnynt I'w basio ymlaen. Ar hyn o bryd does dim addewid ar gyfer darparwyr preifat, e.e. cartrefi gofal, ac mae'n debyg iawn y bydd cynnydd yn y costau y mae'r Cyngor yn gorfod eu

talu I gyflenwyr".Mae Lloegr yn dod gyntaf , ac wedyn Cymru!Wrth gwrs maent yn dal I gefnogi yr HS2 rheilffordd yn Lloegr.

Misoedd ansicr I Gyngor Gwynedd felly!

Cyngh. Annwen Hughes –

Carafan ger mynedfa Gwynfryn Ffarm – pwy sydd berchen hon? Y registration ddim yn cael ei gydnabod gan DVLA.

Bod disgybl yn Ysgol Ardudwy , o Llanbedr, Ross Evans wedi cymerud rhan mewn sioe gerdd yn y West End – 10.11.24 Profiad bythgofiadwy. Fel rhan o Academi Pauline Quirke Conwy wedi ei leoli yn ysgol Rydal Penrhos. Angen ei longyfarch a r ei lwyddiant. Clerc I anfon cerdyn iddo.

Tim Tacluso I ddod I Llanbedr.

Nododd y Clerc bod angen sgubo o amgylch y Gof Golofn cyn dydd sul.

Bod yna linellau melyn wedi eu gosod ger y bont – gyferbun Canolfan Artro. – ffordd Mochras.

UNRHYW FATER ARALL

1. Robin Ward – canlyniad y llinellau marcio cyflymder yn y pentref. Bod rhain wedi eu tynnu o'r safle yn gynharach yn yr wythnos. Crynodeb o'r canlyniad. Mesurydd wedi eu gosod ar y ffordd ogleddol a y ffordd de o'r Pentref. Hefyd yn mesur y nifer o drafnidiaeth yma.

| A496 Llanbedr North (20mph) | Flow (24hr) | Average Speed | 85th% Speed |
|---|---|---|---|
| Combined | 3,089 | 25.9mph | 30.6mph |
| Into Village | 1,542 | 25.0mph | 29.5mph |
| Out Of Village | 1,547 | 26.8mph | 31.4mph |

| A496 Llanbedr South (20mph) | Flow (24hr) | Average Speed | 85th% Speed |
|---|---|---|---|
| Combined | 2,886 | 22.8mph | 27.8mph |
| Into Village | 1,444 | 20.9mph | 25.3mph |
| Out of Village | 1,442 | 24.7mph | 29.4mph |

Data monitor cyflymder

Llanbedr A496 Hydref 2024

| | Gogledd ger Bryn Teg | De ger Hafan Artro |
|---|---|---|
| Cyfanswm cerbydau | 21622 | 20200 |
| Cyfartaledd cyflymdra | 26 | 23 |
| % dros y terfyn cyflymder (20mph) | 91 | 71 |
| % dros trothwy erlyniad “prosecution” limit (25mph) | 54 | 32 |
| Cyflymder 15% mae cerbydau yn uwch na’r trothwy. | 31 | 28 |
| Cyflymder ucha | 55-60 | 45-50 |
| Oriau o uchafswm cyflymder | Dim patrwm neilltuol | 0100-0700<br>1900-2300 |

2. John Evans – angen gostwng palmant ger y gysgodfan pren.

Hefyd bod Campervan yn parcio ger Meirion House – ar y ffordd , creu anhawster I yrwyr weld .Hysbysu yr Heddlu.

3. Kevin Titley – bin cae chwarae wedi malu. Hysbysu CG.
4. Eirwyn Thomas – Angen torri gwrych gyferbun a Capel Gwynfryn eto. Hysbysu CG.
5. Parcio Pentre Gwynfryn – hysbysu’r Heddlu eto.
6. Carafan wedi ei gadael ger Gwynfryn Ffarm – hysbysu’r Heddlu.
7. Agenda cyfarfod cynghorwyr Ardudwy – HAL, Achub Plas Tan y Bwlch, TFW, Cyfansoddiad, Gwefan Ardudwy, Ardal Cynefin Tai.
8. Cyfarfod Huchenfeld nos lun 11.11.24 Trefniadau ar gyfer cyfarfod rhithiol ym mis Rhagfyr rhwng Llanbedr a Huchenfeld.

Deallir bod Cyngor Pforzheim yn yr Almaen wedi ei sefydlu ers 50 mlynedd , a bydd dathliadau.